Eisteddfod Genedlaethol 2009

Yn dilyn haf llwyddiannus fel Mudiad mae'r freuddwyd wedi ei wireddu.

Wedi misoedd o gyfarfodydd, pwyllgorau a threfnu cafwyd pabell lwyddiannus gan y mudiad yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau. Cychwynnodd yr holl ddathlu gyda digwyddiad pwysig sef dadorchuddio plac y Capsiwl Amser yng Nghanolfan Cywain - rhywbeth na wnaed erioed o'r blaen yn hanes y Mudiad. Dywedodd Tegwen Morris Cyfarwyddwraig y Mudiad i'r digwyddiad yma fod yn ddigwyddiad hanesyddol i'r Mudiad. "Roedd y dadorchuddiad yn llwyddiant ysgubol ond cafwyd dipyn o waith paratoi yn y glaw mawr, gyda Jac, Mim a finnau yn ein cotiau glaw yn agor twll ar dir Canolfan Cywain a chladdu'r Capsiwl. Cafwyd tywydd dipyn mwy ffafriol yn ystod seremoni'r dadorchuddio ar ddiwrnod cyntaf yr Eisteddfod, a braf oedd gweld ein Llywydd Cenedlaethol, Esyllt Jones, yn dadorchuddio'r man ble claddwyd y capsiwl, ac yno mae'r garreg yn eistedd i bawb alw draw i'w gweld," meddai.

Yn ôl ein harfer bu aelodau'r Mudiad ynghyd â swyddogion Merched y Wawr yn brysur drwy'r wythnos yn paratoi paned ar gyfer yr ymwelwyr o bob cwr o Gymru - a rhai o wledydd tramor. Roedd hi'n fan cyfarfod i ffrindiau ac roedd yr awyrgylch yn hapus a phrysur.

Ac fel clo i flwyddyn o gasglu bras fe heidiodd y merched gyda'u bras i greu cadwyn o amgylch y babell binc - dyna i chwi agoriad llygaid i ambell un, Merched y Wawr yn amgylchynu'r babell gyda dros 2,000 o fras! 'BRA'fo Lluniau o'r bras tu allan i'r babell

Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd dydd Mercher sydd yn fwy adnabyddus erbyn heddiw fel diwrnod 'Y Merched', ac unwaith eto eleni ar lwyfan y Brifwyl bu bron i 160 o aelodau Rhanbarth Meirionnydd yn cyflwyno hanner awr o adloniant o dan y teitl ..... a chafodd hwn ei ddarlledu yn fyw ar y teledu.

Mair Penri oedd y gyfarwyddwraig ac roedd hyn yn amlwg drwy'r cyflwyniad. Cafwyd hwyl yn paratoi ond roedd yna safon a graen i'r cyflwyniad.

I gwblhau gweithgareddau'r dydd bu llawer iawn o'r aelodau yn Y Babell Len i wrando ar Eiry a Lisa Palfrey a Mererid Jones yn cyflwyno gwaith y ddiweddar Marged Lloyd Jones, cyn Lywydd Anrhydeddus y Mudiad.